| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth/ Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth |
| **RHAN 1 - BIDIAU ANORFOD** | | | | | | | |
| **ADRAN ADNODDAU DYNOL** | | | | | | | |
| **AD01** | **Cydymffurfio a gofynion newydd gweithio gyda plant ac oedolion bregus**<br>**Pwrpas y bid -**<br>O Orffennaf 2010 bydd angen i holl staff a gyflogir yn bresennol o'r newydd fod wedi'i gofrestru gyda'r ISA (Independent Safeguarding Authority) os yw'r swyddogaeth yn un sy'n cynnwys gweithgaredd wedi'i reoleiddio (regulated activity) ym maes plant ac oedolion bregus.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Oni ymatebir i'r gofyn statudol hwn, bydd y Cyngor yn wynebu dirwy drom (dim ffigyrau wedi'u cyhoeddi eto) pob tro y cyflogir unigolyn nad yw wedi cofrestru gyda'r ISA | Alwyn E Jones | £0 | £288,000 | Argymhellir creu cronfa o arian unwaith ac am byth, yn amodol ar drafodaethau gyda chynghorau cyfagos a'r undebau nad yw'r Cyngor yn cyfarfod a'r gost llawn ond ddim ond yr elfen CRB ohonno a henner y gweddill - felly £50 y person | £0 | £225,000 |
| **AD03** | **Swyddi Adnoddau Dynol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Ariannu 2 swydd allweddol ychwanegol i ddelio a materion adnoddau dynol fydd yn codi yn sgil gwireddu Strategaeth Arbedion a'r materion staffio sydd yn sicr o godi yn sgil y newidiadau hynny<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Byddai peidio â sicrhau capasiti hwn yn peryglu gallu'r Gyngor i wireddu rhai arberdion allweddol. | Alwyn E Jones | £81,920 | £4,000 | Argymell ariannu o arian parhaol ond adolygu'r ymrwymiad ar ol dwy flynedd | £81,000 | £0 |
| **ADRAN GOFAL CWSMER** | | | | | | | |
| **GC01** | **Cryfhau isadeiledd parhad gwasanaeth**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Costau refeniw ar gyfer materion megis cysylltu gyda'r we, y wal dân, isadeiled ayyb, sydd yn cyd-fynd â cais cyfalaf GC01<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Os na chyllidir y cynllun yma mae yna bosibilrwydd y bydd y Cyngor yn gwynebu cyfnod sylweddol o amser heb systemau cyfrifiadurol os bydd y prif ystafell gyfrifiadurol yn cael ei cholli oherwydd unrhyw ddigwyddiad anffodus neu drychineb. | Gwenan Parry | £16,009 | £0 | Argymell ariannu o arian parhaol | £16,009 | £0 |
| **ADRAN DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL** | | | | | | | |
| **DCH01** | **Lwfansau Aelodau - lwfansau sylfaenol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Wrth lunio strategaeth ariannol 2009/10 neilltuwyd swm o arian ar gyfer cynyddu lwfans sylfaenol yr aelodau gydag argymhelliad y dylid neilltuo swm cyfatebol ar gyfer 2010/11. Y bwriad, yn dilyn arweiniad y Grwp Busnes, oedd cynyddu'r lwfans sylfaenol i'r uchafswm sy'n daladwy dros gyfnod o 2 flynedd. Gwnaed hyn yn ngoleuni yr argymhellion yn adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar lwfansau aelodau.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Ni fydd yn bosib gwireddu'r strategaeth a gytunwyd yn 2009/10 mewn perthynas â lwfansau sylfaenol. | Dilys Phillips | £45,675 | £0 | Argymell ariannu o arian parhaol gan ei fod yn ail gam o benderfyniad llynedd yn unol ag arweiniad y Grwp Busnes. | £45,675 | £0 |
| **DCH02** | **Cyllideb gwasanaeth y Crwner**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cynyddu cyllideb Gwasanaeth y Crwner er mwyn ymateb i'r cynnydd yn yr achosion sy'n denu archwiliadau post mortem a'r cynnydd yn nifer y cyrff a gludir.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Bydd gorwariant yng nghyllideb y crwner oherwydd natur y gwasanaeth sydd tu allan i reolaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. Bydd y gorwariant yn cael effaith ar gyllidebau eraill yr Adran. | Dilys Phillips | £50,000 | £0 | Argymell ariannu'n rhannol allan o arian parhaol gan ddisgwyl cynnydd gan yr adran o ran rheolaeth y gyllideb | £35,000 | £0 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth/ Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth |
| **ADRAN RHEOLEIDDIO** | | | | | | | |
| **RH01** | **Swyddog Iechyd Amgylchedd Llygredd**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Er galluogi'r tîm i ymdopi a'r llwyth gwaith cynyddol a wynebir a lle mae disgwyliadau yn uchel oherwydd gofyniadau statudol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>1) Methu a darparu gwasanaeth sylfaenol rheoli llygredd gyda dirywiad yn safon yr amgylchedd ac iechyd cyhoeddus yng Ngwynedd.<br>2) Asiantaethau allanol yn cymryd rheolaeth o'r gwasanaeth rheoli llygredd oddi wrth y Cyngor<br>3) Cynnydd yn y lefel salwch o fewn y tîm rheoli llygredd oherwydd y pwysau gwaith ychwanegol.<br>4) Cynnydd yn y lefel o gwynion am y gwasanaeth i'r Cyngor/Ombwdsman.<br>5) Methiant i gyflwyno gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. | Aled Davies | £42,760 | £0 | Adolygiad o'r gwasanaeth ar y gweill - gweler RH13 isod | £0 | £0 |
| **RH13** | **Swyddogion Iechyd Amgylchedd Bwyd**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Gweithredu argymhellion 3 a 4 o'r Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion E .coli 0157 yn Ne Cymru 2005<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Risg o Achos mawr o E.coli 0157 yng Ngwynedd yn cynyddu.<br><br>Dirywiad yn safon hylendid sefydliadau bwyd yng Ngwynedd o'i gymharu â gweddill Cynghorau Cymru. Canlyniad fyddai :<br><br>Goblygiadau i'r economi leol. Gyda dyfodiad 'Scores on the Doors' yn y blynyddoedd nesaf, bydd safon hylendid sefydliadau bwyd yn mynd yn gyhoeddus. Gyda'r risg o sefydliadu yn dirywio bydd llai o drigolion ac ymwelwyr yn dymuno bwyta yng Ngwynedd | Aled Davies | £42,760 | £0 | Argymhellir ariannu o arian unwaith ac am byth - fel bod modd cefnogi swydd am flwyddyn gydag ystyriaeth bellach yn cael ei roi wedi cwblhau adolygiad llawn o'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn<br>Noder yr argymhellir ariannu un o'r swyddi yn y bid yma neu yn bid RH01 gan adael i'r Pennaeth Adran flaenoriaethu | £0 | £42,760 |
| **RH04** | **Cynllun Datblygu Lleol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cyflwynnir y bid er mwyn cael y sicrwydd sy'n angenrheidiol wrth gychwyn y broses paratoi CDLl y bydd yr adnoddau gyllidol sydd eu hangen ar gyfer y broses o'i ddechrau i'r diwedd ar gael. Fe fydd cyfnod paratoi'r CDLl cyntaf yn pontio 4 – 5 mlynedd. Dylier hefyd gadw mewn cof fod y Rheoliadau perthnasol yn gofyn i awdurdodau fonitro'r CDLl a dechrau adolygiad llawn o'r CDLl o leiaf unwaith pob 4 mlynedd.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae'n ofynnol rhoi blaenoriaeth ddigonol i gynllunio'r broses o baratoi ac adolygu cynlluniau datblygu. Disgwylir i'r Cytundeb Cyflawni (sef y ddogfen a fydd yn gosod yr amserlen a'r cynllun cynnwys cymunedau) arddangos bod adnoddau digonol o ran staffio a chyllidebau sydd eu hangen ar wahanol gamau o'r broses ar gael er mwyn cwblhau'r broses o fewn cyfnod penodol. (awgrymir cwblhau'r broses o fewn rhyw 4 mlynedd). Byddai methiant i gyllido'r bid yma yn golygu methiant i brofi bod adnoddau digonol ar gyfer cyllido'r gwaith ar gyfer darparu'r CDLl. | Aled Davies | £0 | £431,200 | Nodir bod symiau sylweddol wedi ei gyfrannu tuag at hyn yn y gorffennol - Argymhellir ariannu o arian unwaith ac am byth am flwyddyn yn unig gan ofyn i'r pennaeth ymchwilio i gyfleon cydweithio er mwyn lleihau'r costau o'r flwyddyn ddilynol ymlaen | £0 | £126,400 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth/ Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth |
| **RH10** | **Provision of out of hours response**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Sefydlu gwasanaeth oddi allan i oriau arferol pan mae'r Cyngor yn wynebu sefyllfa pan ddisgwylir gweithredu gan wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i ddarparu ymateb gwarantiedig. Achosion o wenwyn bwyd, allyriadau petrol, llygredd dwr yfed, marwolaethau yn y gwaith a afiechydon anifeilid e.e traed a'r genau ac yn y blaen.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae'r risgiau o beidio cael ymateb Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn uchel iawn yn nhermau eu heffaith ar iechyd a diogelwch y cyhoedd, ar yr amgylchedd ac ar yr economi lleol. Ni ellir gorddweud y risgiau pebai achos Gwarchod y Cyhoedd sylweddol yn digwydd. | Aled Davies | £30,000 | £0 | Argymell cyfraniad o £15,000 allan o arian parhaol gan ddisgwyl trafodaeth ar y cyd am ariannu darpariaeth ar y cyd gyda chynghorau eraill. Er mwyn caniatau amser ar gyfer gwireddu'r cynlluniau cydweithio hynny, argymhellir £15,000 unwaith ac am byth i sicrhau gweithrediad trefniadau yn syth a rhoi blwyddyn i sefydlu'r trefniadau ar y cyd a chynghorau eraill fel eu bod yn weithredol o 2011/12 ymlaen | £15,000 | £15,000 |
| **ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | | |
| **PB07** | **Glanhau strydoedd ymrwymiad oherwydd digwyddiadau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Ers rhai blynyddoedd nawr mae twf wedi cymeryd lle y y maes digwyddiadau gyda sawl digwyddiad mawr yn cymeryd lle o fewn Y Sir. Engreifftiau fyddai Wakestock a Wa Bala. Mae’r digwyddiadau yma yn denu nifer mawr o drigolion ardal lle meant yn cael eu cynnal sydd gyda oblygiadau ar y gwaith glanhau ofewn y Dref neu bentref. Pwrpas y bid felly ydyw sicrhau ein bod yn cwrdd ar gwaith glanhau sydd o ganlyniad y digwyddiad perthnasol.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae’r digwyddiadau wedi tyfu drost y blyneddoedd ac mae’r gwasanaeth wedi cwrdd ar costau ychwanegol. Sut bynnag mae sefyllfa wedi cyrraedd nawr lle mae rhaid gwneud cais am gyllid ychwanegol er sicrhau nad oes gor wariant yn erbyn y gyllideb. | Gwyn Morris Jones | £18,600 | £0 | Cydnabod elfen o'r twf fel cyfraniad tuag at yr economi lleol | £10,000 | £0 |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | | | | |
| **GCym01** | **Swyddogion Comisiynu**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Cydnabyddir yn adroddiad drafft adolygiad ar y cyd bod comisiynu yng Ngwynedd yn hynod o wan ac angen sylw brys. Atgyfnerthwyd hyn gan adroddiad diweddar Deloitte. Er mwyn gwireddu prif neges Deloitte mae angen buddsoddiad.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Methu cyflawni disgwyliadau y fframwaith Gomisiynu.<br>Methu cyflawni bwriadau comisynu/dad gomisiynu. | Gwen Carrington | £86,720 | £0 | Allweddol i sicrhau y defydd gorau o adnoddau, felly argymell ariannu'r bid yn rhannol er mwyn cefnogi swydd allan o arian parhaol yn amodol ar dderbyn achos busnes amlinellol. | £45,360 | £0 |
| **GCym02** | **Ail strwythuro Uned Rheoli Cyllid ac Asedau Clientiau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Ail strwythuro'r Uned - cynyddu o 3FTE i 4FTE ac ail raddio rhai swyddi.<br>• Pwrpas Swyddfa Rheoli Asedau Cleientau yw gweithredu ar ran Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni dyletswydd o ofal cyffredinol i bobl fregus, i osgoi camddefnydd ariannol drwy roi cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth uniongyrchol i reoli materion ariannol personol ac i warchod asedau'r rhai bregus.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Y Gwasanaeth yn methu gweithredu i gadw cleientau bregus i fyw yn y gymuned. Methu a diogelu cleintau bregus yn y gymuned rhag twyll ariannol. | Gwen Carrington | £40,660 | £0 | Cymeradwyo ar y ddealltwriaeth bod achos busnes cadarn yn ei le fydd yn cynyddu incwm o fewn y gwasanaeth ac yn sicrhau gwasanaeth cyflawn i bobl bregus. | £21,330 | £0 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth/ Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth |
| **GCym04** | **Swyddog Adolygu Annibynnol / Rhan Amser**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Creu hanner swydd ychwanegol i'r ddau Swyddog Adolygu sydd yn cael eu cyflogi eisioes gan y Cyngor, un yn llawn amser a'r llall 4 diwrnod yr wythnos. Yn 2004/5 roedd 135 o blant mewn gofal pan greuwyd y lefel bresennol o staffio. Erbyn hyn mae oddeutu 160/164 o blant mewn gofal. Mae cynnydd wedi bod hefyd yn nisgwyliadau y swydd gyda Canllawiau Swyddogion Adolygu Cymru 2002 ac Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Disglair 2008.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Mae perfformiad ein gwasanaeth wedi lleihau yn ystod y dair blynedd diwethaf. Rydym yn gallu cynnig dyddiad adolygiad o fewn amser ar y cyfan ond os oes rhaid gohirio mae hi yn dynn iawn i gynnig ail ddyddiad o fewn amser. Heb yr hanner swydd ychwanegol byddai perfformiad yn dirywio ymhellach.<br>Cynnal adolygiadau o fewn terfynau amser<br><br>2007/8 2008/9 Chwarter 1,2009 Cyfartaledd Cymru 0809<br>87% 79.6% 78% 89.85% | Gwen Carrington | £22,470 | £0 | Argymhellir ariannu allan o arian parhaol | £22,350 | £0 |
| **GCym07** | **Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru**<br>**Pwrpas y bid -**<br>I ariannu'r diffyg o £48,860 yn y cyfraniad a ddisgwylir gan Wynedd i'r gwasanaeth consortiwm mabwysiadu newydd. Gall y gwasanaeth gyfrannu<br>£15,000 o gyllideb a ddefnyddir i gyfrannu at y consortiwm presennol ac asesiadau allanol, ond mae hyn yn gadael diffyg o £33,860 os ydym am fod yn<br>ran o'r trefniadau newydd.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gwasanaeth na fydd yn cydymffurfio a safonnau cenedlaethol a'r ddeddfwriaeth.<br>Methiant i barhau yn rhan o wasanaeth gogledd cymru.<br>Diffyg dewis o leoliadau mabwysiedig – hyn yn arwain at cynnydd yn y nifer o achosion bydd rhaid eu cyfeirio i'r gofrestr cenedlaethol.<br>Y gwasanaeth yn destun archwiliad CSSIW pob 3 blynedd. Yr archwiliad diwethaf wedi adnabod rhai gwendidau ond yn cydnabod bod y ddeddfwriaeth yn newydd, bod gwaith datblygu gwasanaeth ar y gweill a bod trafodaethau yn digwydd am wasanaeth ar y cyd. Archwiliad nesaf ar ol y gwanwyn 2010 a disgwylir y bydd yr archwilwyr yn llawer fwy llym eu barn am unrhyw ddiffygion statudol | Gwen Carrington | £33,860 | £0 | Argymhellir ariannu allan o arian parhaol gan bod yr achos busnes yn sicrhau ein bod yn osgoi costau uwch ar raddfa sylweddol iawn | £33,860 | £0 |
| **GCym08** | **Cynllun lleoli oedolion Gwynedd - 1 x swydd rheolaethol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae Cynllun Lleoli Oedolion Gwynedd angen mynd trwy broses o ail drefnu yn sgil adroddiad beirniadol yn gynharach eleni gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru/CSSIW. Mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir ei bod yn gwbl hanfodol sicrhau presenoldeb rheoli ychwanegol ar y Cynllun er mwyn ateb gofynion a safonau CSSIW. Sicrhau bod Cynllun Lleoli Oedolion yn cwrdd a gofynion CSSIW a pharhau fel gwasanaeth<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Beirniadaeth lem gan CSSIW a'r risg o'r Cynllun yn dod i ben. | Gwen Carrington | £47,260 | £0 | Cefnogi'r bid gyda achos busnes i'w gyflwyno i gynnig lleoliadau gyda theuluoedd sy'n fwy addas a chost effeithiol. Bydd angen i'r Gwasanaeth adnabod y buddion | £47,260 | £0 |
| **Gcym13** | **Cartrefi Preswyl – Offer Arbenigol**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Darparu offer arbenigol ar gyfer cartrefi henoed e.e offer codi (hoist)<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Diffyg offer arbenigol ar gyfer cartrefi henoed | Gwen Carrington | £0 | £66,920 | Argymell ariannu yn rhannol o adnoddau parhaol | £50,000 | £0 |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth/ Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth |
| **ADRAN TAI** | | | | | | | |
| **T02** | **Swyddogion Digartrefedd Cynorthwyol (2 Swydd)**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Sicrhau cytundeb parhaol i ddwy swydd cynorthwyol digartrefedd dros dro sydd yn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>1)Methiant i gyflawni dyletswydd statudol y Cyngor.<br>Mae buddsoddiad mewn adnoddau staff wedi dangos fod arbedion ariannol yn deillio o ‘fuddsoddi i arbed’, gyda gostyngiad yn y gwariant ar lety gwely a brecwast. | Berwyn Parry Jones | £52,640 | £0 | Argymhelli'r ariannu'r swydd yn rhannol - wedi herio data cymharol am lefelau staffio. Gwasanaeth i ariannu'r gweddill | £35,140 | £0 |
| **T04** | **Newid yn null ariannu rhenti tai ar gyfer cartrefu y digartref**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Ariannu diffug yn sgil newidiadau gan y Trysorlys i fudd-daliadau digartref<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gorwariant yn y gyllideb | Berwyn Parry Jones | £129,780 | £0 | Argymhellir ariannu allan o arian parhaol. | £46,490 | £0 |
| **ADRAN DARPARU A HAMDDEN** | | | | | | | |
| **DH07** | **Monitro Diogelwch ac Ansawdd Cyflenwyr Bwyd i Geginau Cyngor Gwynedd**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Sicrhau diogelwch bwyd yn dilyn adroddiad Pennington i achosion E-coli.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Risgiau i'r gadwyn fwyd ac o fethu gweithredu argynhellion adroddiad Pennington | Morewnna Edwards | £16,920 | £0 | Gwariant anorfod ychwanegol i sicrhau monitro ansawdd. | £16,920 | £0 |
| **ADRAN ADDYSG** | | | | | | | |
| **Add01** | **Uwchraddio System Electronaidd Casglu Gwybodaeth Addysg**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Costau refeniw o gynnal y system yn gysylltiedig a bid cyfalaf Add01<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Rhan gyntaf y datblygiad wedi ei ariannu llynedd | Dewi R Jones | £22,480 | £0 | Argymhellir ariannu o arian parhaol ond yn amodol ar ei wirio yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael o fewn yr adran | £22,480 | £0 |
| **CYFANSWM RHAN 1 - BIDIAU ANORFOD** | | | | | | **£543,874** | **£409,160** |

| Cyfeirnod | Mater gyda goblygiadau cyllidol | Pennaeth Gwasanaeth/ Swyddog | Swm y cais gwreiddiol | | Argymhellion y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | Symiau yr argymhellir eu | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Parhaol | Unwaith ac am byth | | Parhaol | Unwaith ac am byth |
| **RHAN 2 - TROSGLWYDDIADAU** | | | | | | | |
| **ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | | | | | |
| **GCym06** | **Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn dechrau cael ei weithredu dros cyfnod o 3 blynedd, yn cychwyn yn 2009-10. Arian wedi cael ei ddyrannu drwy grant yn 2009-10 a bydd hwnnw yn y setliad ar gyfer 2010-11.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Risg o gael ein herio mewn llys os na thelir y lwfans ariannol tu hwnt i benblwydd plentyn yn 16 oed.<br>Risg na fydd gofalwyr maeth yn fodlon gwneud cais am orchmynion os nad yw'r lwfans yn parhau hyd nes bydd plentyn yn 18 oed.<br>Plant yn aros yn hirach yn y sustem gofal pan nad oes angen hynny lle mae opsiwn cyfreithiol arall ar gael ar eu cyfer.<br>Os yw plant yn aros yn y sustem gofal golyga hyn hefyd bod adnoddau eraill y cyngor, megis amser gweithwyr cymdeithasol yn cael eu clymu i gwrdd a gofynion statudol ar gyfer plant mewn gofal | Gwen Carrington | £15,180 | £0 | Argymhellir ariannu allan o arian parhaol yn unol a'r swm sydd yn y setliad | £15,180 | £0 |
| **Gcym14** | **Egwyl fer i Blant ac anableddau**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Deddfwriaeth i sicrhau fod goflwyr yn cael egwyl<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gorwariant yn y gyllideb | Gwen Carrington | £46,000 | £0 | Argymell ariannu o adnoddau parhaol | £46,000 | £0 |
| **Gcym18** | **Arianu Teg**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Digolledu'r awdirdod yng nghyswllt ffoedd ar gyfer gwasanaethau Cymdethasol di-breswyl.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Gorwariant yn y gyllideb | Gwen Carrington | £396,000 | £0 | Argymell ariannu o adnoddau parhaol | £396,000 | £0 |
| **Gcym19** | **Grant Gofalwyr Iechyd Meddwl**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Trefiadau wrth gefn mewn cynlluniau gofal sy'n fwy hyblyg ar gyfer anghenion unigolion.<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Diffyg yn y ddarparaieth | Gwen Carrington | £170,000 | £0 | Argymell ariannu o adnoddau parhaol | £170,000 | £0 |
| **ADRAN ADDYSG** | | | | | | | |
| **Add02** | **Grant Ynni a Phoblogaeth Ysgolion yn trosglwyddo i'r setliad**<br>**Pwrpas y bid -**<br>Mae'r ysgolion wedi derbyn y grant uchod ers tair blynedd ac felly wedi'i ymgorffori yn llawn<br>**Goblygiadau peidio cyllido'r bid -**<br>Byddai peidio ariannu yn llawn yn arwain at doriadau pellach byddai angen i'r ysgolion ariannu uwchben arbedion effeithlonrwydd, effaith demograffeg (i ran fwyaf o ysgolion) ac effaith toriadau cyffredinol (beth bynnag fydd y penderfyniad) | Dewi R Jones | £622,400 | £0 | Argymhellir ariannu yn unol a'r hyn a drosglwyddir i'r setliad | £469,000 | £0 |
| **CYFANSWM RHAN 2 - TROSGLWYDDIADAU** | | | | | | **£1,096,180** | **£0** |

| cyllido |
| --- |
| **Ffynnhonell Arall** |
| |
| |
| £0 |
| £0 |
| |
| £0 |
| |
| £0 |
| £0 |

| cyllido |
| --- |
| **Ffynnhonell Arall** |
| |
| £0 |
| £0 |
| £0 |

| cyllido |
| --- |
| **Ffynnhonell Arall** |
| £0 |
| |
| £0 |
| |
| £0 |
| £0 |

| cyllido |
| --- |
| Ffynnhonell Arall |
| £0 |
| £0 |
| £0 |
| £0 |

| cyllido |
| --- |
| **Ffynnhonell Arall** |
| |
| £17,500 |
| £0 |
| |
| £0 |
| |
| £0 |
| **£17,500** |

| cyllido |
| --- |
| **Ffynnhonell Arall** |
| |
| |
| £0 |
| £0 |
| £0 |
| £0 |
| |
| £0 |
| **£0** |